| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Ionawr 2018** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd / Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaethau Treftadaeth a Chefn Gwlad** |
| **Teitl:** | **Delio â choed – dull gweithdrefnol, cyfrifoldebau a ffynonellau gwybodaeth** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae gweithdrefn newydd o'r enw 'Delio â choed – dull gweithdrefnol, cyfrifoldebau a ffynonellau gwybodaeth' (Atodiad 1) wedi ei llunio'n ddiweddar i alluogi'r Awdurdod ddatblygu dull cyson i reoli ei weithgareddau coed, yn fewnol a chyda'r cyhoedd a thrydydd parti. Bydd dull cyson yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei rôl gyfreithiol fel perchennog tir, ei rôl reoleiddio dan y Deddfau Cynllunio ac yn darparu elfennau allweddol y Flaenoriaeth Amgylcheddol yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli ei goed ac yn delio gyda materion ac ymholiadau ynglŷn â choed; coed ym meddiant y Cyngor a choed ym meddiant trydydd parti neu aelod o'r cyhoedd.

At hyn, gofynnir am adborth yr Aelodau ar y weithdrefn (Atodiad 1) at ddibenion y broses ymgynghori fewnol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 Darparu sylwadau ar y weithdrefn 'Delio â Choed' ac yn darparu adborth at ddibenion y broses ymgynghori; ac yn

3.2 cefnogi'r dull a amlinellir yn y weithdrefn 'Delio â Choed'.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at weithdrefn newydd – 'Delio â Choed – dull gweithdrefnol, cyfrifoldebau a ffynonellau gwybodaeth' a luniwyd i helpu swyddogion ddelio gyda choed ym meddiant y Cyngor ac ymholiadau gan y cyhoedd. Mae'r weithdrefn lawn ar gael yn Atodiad 1.

Mae swyddogion yn derbyn nifer o ymholiadau amrywiol am goed y sir. Mae'r ymatebion fel rheol yn gadarn ac yn awdurdodol. Fodd bynnag, ceir achosion lle darperir cyngor neu gamau gweithredu anghyson. Gyda nifer o wasanaethau yn yr

Awdurdod yn gyfrifol am goed, mae gwybodaeth am weithdrefnau coed amrywiol yn bwysig i gynnal stoc iach o goed, i safoni gofal coed ac i ddarparu gwasanaeth da a chyson i gwsmeriaid.

Mae coed yn darparu llawer o fuddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae cael coed iach yn hanfodol i sicrhau bod y buddion hyn yn parhau i'r dyfodol, er lles y sir a'i thrigolion. Mae coed Sir Ddinbych yn ased enfawr ac yn ffurfio tirlun a chymeriad ein hardaloedd gwledig a threfol. Mae coed yn ffurfio tirnodau a thirluniau, yn ychwanegu at edrychiad adeiladau, meysydd pentref a mannau agored; mae gan rai ohonynt werth diwylliannol neu hanesyddol arbennig ac mae eraill yn brin neu'n gynefin pwysig i fywyd gwyllt. Mae coed a choetiroedd yn gwneud cyfraniad sylweddol i dirlun y sir:

- Darparu cynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt
- Ffiltro aer a sŵn
- Darparu cysgod o'r haul, gwynt a'r glaw
- Ailgylchu'r aer rydym ni'n ei anadlu
- Tynnu gronynnau niweidiol o'r aer
- Tynnu carbon deuocsid o'r aer
- Darparu amgylchedd gwyrdd hyfryd i ni fyw a gweithio ynddo
- Lliniaru effaith datblygiadau
- Cynnal cysylltiad â'r amgylchedd naturiol

Mae gan y Cyngor ddwy rôl o ran materion coed. Yn gyntaf, fel perchennog tir, mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i reoli ei stoc coed i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Yn ail, mae ganddo rôl reoleiddio dan y Deddfau Cynllunio i warchod coed a choetiroedd a gwneud yn siŵr bod coed yn cael eu hystyried wrth gynllunio datblygiad newydd.

Nod y weithdrefn goed yw sicrhau diogelwch coed, cynnal ac annog bioamrywiaeth, cynnal a gwella ansawdd y tirlun a, thrwy hynny, gwella ansawdd bywydau trigolion ac ymwelwyr heddiw a'r dyfodol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Cynnal a gwella'r gorchudd coed ar gyfer y dyfodol
- Annog gwaith cadwraeth, rheoli cadarnhaol a phlannu coed a choetiroedd yn briodol yng nghefn gwlad ac mewn pentrefi a threfi
- Hyrwyddo pwysigrwydd coed a choetiroedd wrth siapio edrychiad a chymeriad nodedig a lleol tirluniau gwledig a threfol y sir
- Cydnabod gwerth esthetig, ecolegol, diwylliannol a hanesyddol coed a'u gwerth fel tirnodau
- Cyfathrebu, addysgu ac ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau ynglŷn â materion coed
- Rheoli stoc coed y sir yn rhagweithiol
- Darparu eglurhad ynghylch penderfyniadau a chamau gweithredu
- Cydbwyso'r risg a'r niwsans i bobl ac eiddo yn erbyn nodau eraill
- Cydnabod gwerth coed fel asedion diriaethol

Bydd y weithdrefn yn helpu i gyrraedd y nodau hyn. Bydd yn darparu canllaw ar gyfer rheoli coed a'r ffordd y bydd y Cyngor yn ymateb i'r ymholiadau mwyaf cyffredin ac yn delio â materion coed. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth hirdymor coed i'r amgylchedd, felly gwneir penderfyniadau er budd y cyhoedd yn y tymor hir.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cefnogi gweithdrefn well i ddelio â choed yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu'r flaenoriaeth amgylcheddol yn y Cynllun Corfforaethol. Mae plannu coed yn un o'r gweithgareddau a nodir dan y thema bioamrywiaeth.

Fel y dywedwyd eisoes, mae mannau gwyrdd gyda choed yn cael effaith gadarnhaol ar les trigolion a chymunedau, yn arbennig mewn ardaloedd trefol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ar hyn o bryd nid oes angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r gweithdrefnau.

Dylai gweithredu dull safonol i ddelio â materion coed gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Mae'r gweithdrefnau hyn wedi eu datblygu gyda nifer o wasanaethau yn yr Awdurdod ac mae swyddogion wedi dweud y bydd y gweithdrefnau yn eu cynorthwyo i reoli'r coed yn fwy effeithlon.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Nid yw'r broses hon yn berthnasol i ddogfen sy'n amlinellu gweithdrefnau'r Cyngor. Mae'n bosibl y bydd achosion lle bydd y gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith ac yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Les oherwydd eu bod yn gynhennus, yn achosi anfantais gymunedol neu'n peryglu mantais gymunedol yn sgil eu datblygu neu dan amgylchiadau ehangach.

Mae'r gweithdrefnau yn gymorth i gymryd y camau gweithredu. Mae'n bosibl y bydd angen asesu effaith y camau hynny, ond nid y gweithdrefnau eu hunain.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o ymgynghoriad gydag Aelodau ac ymgynghorwyd ag Aelodau Arweiniol. Mae swyddogion cynllunio wedi cymryd rhan yn natblygiad y ddogfen. Mae swyddogion perthnasol eraill o'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Eiddo, Hamdden, Addysg a Strategaeth wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ac wedi cyfrannu at ddatblygiad y gweithdrefnau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes goblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae penderfyniadau gwael a/neu anghyson o ran coed yn gallu arwain at fethu cydymffurfio â deddfwriaethau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, niwed i enw da, cynnydd mewn cwynion gan y cyhoedd a lleihau gwerth bioamrywiaeth.

Nod y ddogfen yw cyflwyno cyfres dryloyw o weithdrefnau a chynnig dull cyson i ddelio â choed yn Sir Ddinbych.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 7.2.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Pwyllgorau Archwilio ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal neu drigolion y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaethau Treftadaeth a Chefn Gwlad
Rhif ffôn: 01824 712742